



In-depth Briefings

Bil Coronafeirws

Mawrth 2020

Ar 19 Mawrth amlinellodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig bwerau argyfwng newydd i ddelio gydag achosion Coronafeirws (COVID-19) ac i geisio atal ei ledaenu.

Mae'r papur gwybodaeth manwl yma yn crynhoi prif ddarpariaethau'r Bil fydd yn effeithio ar gymdeithasau tai a'u gweithgareddau cysylltiedig yng nghyswllt Coronafeirws. Bydd y papur gwybodaeth hefyd yn ymchwilio camau cysylltiedig y mae cymdeithasau tai eisoes yn eu cymryd a gwaith CHC i'w cefnogi.

Mae darpariaethau allweddol y Bil yn cynnwys:

- Cofrestru brys ar gyfer swyddogion iechyd a gweithwyr cymdeithasol
- Darparu gwirfoddolwyr argyfwng
- Iechyd meddwl a chpasiti meddwl
- Indemnio gwasanaeth iechyd
- Gofal a chymorth y Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac awdurdodau lleol
- Gohirio'r gofyniad i gynnal cwestau gyda rheithgor
- Cau ysgolion a darparwyr gofal plant dros dro
- Pwerau'n gysylltiedig â digwyddiadau, cyfarfodydd a safleoedd
- Cyllido tâl salwch statudol a gohirio dyddiau aros
- Gohirio etholiadau

Mae'r papur gwybodaeth hwn yn ystyried adrannau perthnasol y Bil yn gysylltiedig â thri maes blaenoriaeth:

- swyddogion iechyd a gweithwyr cymdeithasol
- cau ysgolion, gofal plant a darpariaeth gwasanaeth cyhoeddus ehangach; a
- tâl Salwch Statudol.



Cymalau yn cyfeirio at gweithwyr iechyd proffesiynol a gweithwyr cymdeithasol

- Cofrestru brys ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol a gweithwyr cymdeithasol a gofal

Bydd hyn yn galluogi cofrestryddion gyda chofrestru brys ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol. Mae'r cofrestru hyn gyda'r Cyngor Nyrsio, y Cyngor Bydwreigiaeth a'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal. Gobeithir y bydd hyn yn helpu i lacio'r pwysau ar wasanaethau i ddarparu gwasanaethau gofal iechyd hanfodol yn y cyfnod hwn o argyfwng.

Y cynnig yw diwygio Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001 a Deddf Rheoleiddio ac Archwilio Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 i ganiatáu cofrestru person neu grwpiau o bobl y mae'r cofrestrydd yn barnu eu bod yn "addas, priodol a gyda phrofiad addas" pe byddai Gweinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol perthnasol wedi datgan fod argyfwng wedi digwydd, yn digwydd neu ar fin digwydd.

Mae darpariaethau pellach yn y Bil yn rhoi'r grym i Weinidogion Cymru i ddatgymhwysu neu addasu rheoliadau yn ymwneud â darparwyr gwasanaeth gofal cymdeithasol a darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru, yn cynnwys gofynion ar weithdrefnau fetio ar gyfer staff cyn y caniateir iddynt ddechrau gweithio.

- Gwirfoddolwyr argyfwng

Mae'r cymal hwn yn creu math newydd dros dro o absenoldeb statudol heb dâl ar gyfer gweithwyr cyflogedig a gweithwyr sy'n dymuno gwirfoddoli, gan alluogi'r Ysgrifennydd Gwladol perthnasol i wneud trefniadau ar gyfer talu'r gwirfoddolwyr hynny ar gyfer colled enillion a hefyd deithio a chynhaliaeth.

Gyda phwysau cynyddol ar weithluoedd iechyd a gofal cymdeithasol, gall gwirfoddolwyr iechyd a gofal cymdeithasol fod â rôl hanfodol wrth ddarparu gwasanaethau dydd i ddydd, gan fod ganddynt ystod eang o sgiliau a phrofiad y gellir eu defnyddio i wneud nifer o weithgareddau a gaiff eu rheoleiddio a gweithgareddau heb eu rheoleiddio.

- Iechyd meddwl a galluedd meddyliol

Cynigir nifer o newidiadau dros dro i Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 er mwyn cefnogi gwasanaethau iechyd meddwl. Er enghraifft, caiff rhai swyddogaethau yn ymwneud a chadw a thrin cleifion eu bodloni gan farn ac ardystiadau llai o feddygon.

- Indemnio gwasanaeth iechyd



Disgwylir y bydd llai o staff ar gael yn y sector gofal iechyd oherwydd bod staff yn cael diagnosis o coronafeirws. I oresgyn hyn, bydd angen i fyfyrwyr meddygol gynorthwyo wrth ddarparu gwasanaethau GIG; gofynnir i staff ymgymryd â gweithgareddau nad ydynt yn rhan o'u rôl arferol, a gellir gofyn i ddeintyddion a nyrsys meddygfeydd teulu gynorthwyo mewn ysbytai.

Mae'r cymal indemniaeth yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gweinidogion Cymru i ddarparu indemniaeth ar gyfer rhwymedigaethau esgeulustod clinigol swyddogion gofal iechyd ac eraill yn deillio o weithgareddau GIG a wneir fel rhan o'r argyfwng coronafeirws.

- Gofal a chymorth GIG ac awdurdodau lleol

Ar hyn o bryd, gall cleifion gydag anghenion gofal cymdeithasol symud drwy nifer o gamau cyn y cânt eu rhyddhau o ysbyty.

Mae'r ddarpariaeth yma'n gostwng dros dro y nifer o ddyletswyddau a osodwyd ar awdurdodau lleol dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 wrth asesu anghenion unigolion yn ymwneud â gofal a chymorth.

- Llacio gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol

Mae'r ddarpariaeth hon yn galluogi darparwyr GIG i ohirio cynnal y broses iechyd ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus GIG nes bydd yr achosion coronafeirws wedi dod i ben. Cydnabyddir y bydd y GIG yn wynebu gofynion enfawr a llai o gapasiti. Bydd hyn yn sicrhau y gall cleifion sy'n barod i adael yr ysbyty wneud hynny'n gyflym.

Yr Effaith ar Gymdeithasau Tai

Mae'r cymalau hyn yn anelu i greu capasiti ychwanegol drwy wasanaethau GIG a gofal cymdeithasol ar draws y wlad. Gallai ychwanegiad gweithwyr cymdeithasol a nyrsys helpu i ddelio gydag unrhyw brinder staff a all ddigwydd fel canlyniad i fwy o absenoliaeth staff neu alw cynyddol.

Fodd bynnag, mae'r gofynion ar y gwasanaethau iechyd yn debygol o fod yn ddigynsail drwy gydol y cyfnod hwn ac mae'r pwysau ar bob math o ofal a chymorth cymdeithasau tai yn debyg o gynyddu fel canlyniad. Mae CHC yn gweithio'n agos gyda'n haelodau i gefnogi sgysiau am drefniadau cronni staff i sicrhau parhad gwasanaeth. Rydym hefyd yn ymgysylltu gyda chydweithwyr mewn gwasanaethau iechyd a gofal yn genedlaethol ac yn lleol i deall pa rôl y gall cymdeithasau tai fod â hi wrth reoli'r gofynion cenedlaethol.



Cymalau'n ymwneud â chau ysgolion, gofal plant a darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus yn ehangach

- Safleoedd addysg a gofal plant

Byddai'r ddeddfwriaeth hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddiadau ar gyfer cyfyngu presenoldeb mewn safleoedd a ddefnyddir ar gyfer darparu addysg neu ofal plant. Byddid yn creu pwerau i ganiatáu

- unigolion i fynychu safleoedd gwahanol,
- newid dyddiadau tymhorau a/neu wyliau, a
- galluogi sefydliadau i ddarparu gwasanaethau ychwanegol tebyg i oriau gwaith estynedig.

Bydd gan Weinidogion Cymru hefyd y pŵer i ddatgymhwysu neu addasu dros dro y gofynion deddfwriaethol cyfredol mewn deddfwriaeth addysg a gofal plant, er enghraifft ofynion i ddarparu prydau ysgol.

Cynigir pwerau pellach i atal lledaeniad y coronafeirws a sicrhau lles a diogelwch y rhai sy'n gweithio ac astudio mewn ysgolion a sefydliadau addysgol eraill. Mae'r grym hwn yn rhoi gallu i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo sefydliadau i gymryd camau i rwystro pobl rhag mynychu am gyfnod penodol a nodir yn y gyfarwyddeb.

Y pwerau a gaiff eu creu yn y rhannau yma o'r ddeddfwriaeth yw'r rhai a ddefnyddir i gyfeirio ysgolion i barhau ar agor ar gyfer darparu gofal plant a/neu addysg i blant gweithwyr allweddol.

- Llysoedd a thribiwnlysoedd: defnyddio technoleg fideo a sain

I gyfyngu lledaenu coronafeirws, bydd y ddeddfwriaeth yn ymestyn argaeledd dolenni fideo byw ar draws llysoedd i alluogi cynnal trafodion drwy fideo neu dros y ffôn.

- Pwerau'n gysylltiedig â phobl a allai fod yn heintus: cwnstabiailid a swyddogion mewnfudo

Nod hyn yw rhoi'r pwerau gofynnol i gwnstabiailid a swyddogion mewnfudo i gefnogi ymdrechion ehangach iechyd cyhoeddus i reoli lledaeniad coronafeirws.

Bydd y cynigion yn rhoi modd i'r heddlu weithredu cyfyngiadau iechyd cyhoeddus synhwyrol ac i gyfeirio unigolion i geisio triniaeth briodol.



Bydd y cynigion hyn yn sicrhau y gall swyddogion mewnfudo a chwnstabliaid gefnogi'r gwaith iechyd cyhoeddus ehangach lle maent yn dod i gysylltiad â pherson sy'n heintus yn ystod eu swyddogaethau arferol ar y ffiniau.

- Gohirio etholiadau

Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i ohirio etholiadau yn Lloegr a Chymru y bwriadwyd eu cynnal ar 7 Mai 2020 am flwyddyn. Caiff etholiadau a refferenda eraill perthnasol (is-etholiadau, er enghraifft) hefyd eu gohirio.

- Pwerau'n gysylltiedig â digwyddiadau, cyfarfodydd a safleoedd

Mae'r Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru a'r Deyrnas Unedig fydd yn eu galluogi i wahardd cyfarfodydd neu ddigwyddiadau cyhoeddus er mwyn atal lledaenu Coronafeirws.

Yr Effaith ar Gymdeithasau Tai

Mae cau ysgolion a safleoedd gofal plant yn debyg o gael effaith sylweddol ar argaeledd staff sydd â chyfrifoldebau gofal plant ar draws y wlad. Galluogwyd darparu addysg a gofal plant i'r rhai y mae eu rhieni yn weithwyr allweddol er mwyn sicrhau fod y pobl sy'n ymwneud yn uniongyrchol yn ymateb gwasanaethau cyhoeddus i Coronafeirws yn medru mynd i'r gwaith.

Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi cyhoeddi rhestr o swyddi sy'n cymhwyso fel rhai hanfodol ar gyfer dibenion eu plant yn mynychu ysgol neu feithrinfa. Fodd bynnag, rhestr i Loegr yn unig yw hyn, ac mae Llywodraeth Cymru yn gweithio i gadarnhau ei rhestr ei hun o swyddi. Rydym yn gofyn am eglurdeb gan Lywodraeth Cymru ar y materion hyn fel mater o frys.

Fel sy'n debygol a bod canllawiau Cymru yn debyg i'r hyn a gynhyrchwyd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, gallai lledaenu'r gweithgaredd yn y canllawiau fod yn weithredol i lawer o staff cymdeithasau tai. Fel sector bydd yn hanfodol ein bod yn gweithredu'n gyfrifol a dim ond yn dynodi'r staff hynny sy'n hanfodol i rediad parhaus gwasanaethau hanfodol.

Ar gyfer cymdeithasau tai na wnaeth hynny eisoes, gall fod yn berthnasol ystyried trefniadau cronni staff yn lleol i sicrhau parhad gwasanaeth. Mae CHC wedi dechrau trafodaethau gydag aelodau ar sut y gallwn gefnogi hyn.

Gallai darpariaeth ehangach ar y gwasanaethau cyhoeddus yn y Bil, yn neilltuol yng nghyswllt y llysoedd a rôl yr heddlu a staff arall gwasanaethau cyhoeddus, gael effeithiau ar lesiant cymunedol. Dywedodd CHC ein bod yn hyderus na chaiff tenantiaid eu troi allan o gartrefi cymdeithasau tai oherwydd caledi ariannol oherwydd Coronafeirws. Fodd bynnag, mae'n debyg y bydd effaith sylweddol ar allu'r llysoedd yn ystod y cyfnod hwn a gall achosion yn ymwneud ag ymddygiad



gwrthgymdeithasol hefyd fod yn annhebygol o symud ymlaen. Bydd angen i gymdeithasau tai ystyried sut i drin sefyllfaoedd a effeithir gan hyn, gan weithio'n agos gyda phartneriaid cymunedol.

Cymalau'n ymwneud â chyflogaeth a Thâl Salwch Statudol (SSP)

- Tâl Salwch Statudol: cyllido rhwymedigaethau cyflogwyr a gohirio dyddiau aros

Dywedodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig ei bod eisiau sicrhau fod busnesau bach a chanolig (SMEs) yn derbyn cymorth ariannol pan maent yn cael costau SSP oherwydd absenoldeb yn gysylltiedig â coronafeirws, ac felly bydd yn galluogi adennill yr SSP.

Bydd y darpariaethau yn y Bil yn caniatáu ad-daliad i gyflogwyr am gostau SSP ar gyfer absenoldeb yn gysylltiedig â coronafeirws. Bydd uchafswm o ddwy wythnos o ad-daliad fesul gweithiwr cyflogedig.

Bydd y darpariaethau yn y Bil hefyd yn galluogi'r llywodraeth i ddileu dros dro y tri diwrnod cyntaf yn aros am SSP. Caiff y rhai sy'n wael oherwydd coronafeirws eu talu o ddyddiad cyntaf y salwch.

Yr Effaith ar Gymdeithasau Tai

Bydd hyn yn galluogi cymdeithasau tai i gael ad-daliad am gost SSP ar gyfer gweithwyr cyflogedig y mae Coronafeirws wedi effeithio arnynt, gan ostwng y baich ariannol ar y cyflogwr.

Fodd bynnag, disgwylir cyhoeddiadau pellach tu allan i'r ddeddfwriaeth hon gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ar sut y byddant yn cefnogi busnesau a hefyd weithwyr cyflogedig y mae Coronafeirws wedi effeithio arnynt.

Bydd ymestyn SSP hefyd yn rhoi peth sicrwydd i unrhyw denantiaid y mae'r feirws yn effeithio arnynt yn nhermau eu hincwm. Fodd bynnag, oherwydd y lefel y gosodwyd yr SSP arni, bydd llawer o denantiaid yn gweld gostyngiad mewn incwm beth bynnag a gallant ddioddef caledi ariannol fel canlyniad.

I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â:

Aaron Hill neu Rhea Stevens, Penaethiaid Polisi a Materion Allanol

aaron-hill@chcymru.org.uk / rhea-stevens@chcymru.org.uk